# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Hydref 2018

Amser: 09.30 - 10.26

# Cyfarfod preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC (Cadeirydd)<br>Andrew RT Davies AC<br>Llyr Gruffydd AC |
| Comisiynydd Safonau: | Syr Roderick Evans QC |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Owain Roberts (Ysgrifenyddiaeth) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gareth Bennett AC.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Andrew R.T. Davies AC i'w gyfarfod cyntaf yn sgil cael ei ethol yn aelod o'r Pwyllgor ar 18 Medi 2018, a diolchodd i Paul Davies AC am ei holl gyfraniadau i waith y Pwyllgor.

## 2 Cod Ymddygiad – Adolygiad: Trafod ymateb Comisiwn y Cynulliad i'r adroddiad 'Creu'r Diwylliant Cywir'

2.1 Trafododd yr Aelodau ymateb Comisiwn y Cynulliad i'r argymhellion a geir yn yr adroddiad 'Creu'r Diwylliant Cywir'.

2.2 Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cadeirydd yn ymateb i'r Llywydd a gofyn am amserlen gliriach ar gyfer ymateb i Argymhelliad 14.

2.3 Nododd yr Aelodau y bydd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru i Argymhelliad 12 ar gael yn ddiweddarach yn y mis ac y bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 3 Adroddiad Blynyddol Grwpiau Trawsbleidiol: Trafod yr adroddiad ar gyfer 2017-18

3.1 Trafododd yr Aelodau Adroddiad Monitro'r Grwpiau Trawsbleidiol 2017-18 a baratowyd gan y Swyddfa Gyflwyno ar gyfer y Pwyllgor yn unol â pharagraff 44 o'r rheolau ar weithredu Grwpiau Trawsbleidiol.

3.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Llywydd yn nodi eu hargymhellion a'r camau a awgrymir ar gyfer y Grwpiau Trawsbleidiol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r rheolau ac sydd o'r herwydd yn dod o dan Gategorïau B ac C yn yr Adroddiad.